Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC52: Ail gartefi a llety gwyliau tymor byr

**Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd**

**Hydref 2024**

**This document is also available in English.**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partïon; a
Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live, work and discover**

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .... 4
2. Polisi, canllawiau a deddfwriaeth cynllunio cenedlaethol .... 4
3. Cysylltiadau â pholisïau rhanbarthol .... 7
4. Cysylltiadau â pholisïau lleol .... 7
5. Dewisiadau polisi .... 11
6. Trothwy .... 12
7. Effaith ar y farchnad dai .... 13
8. Y Gymraeg .... 18
9. Effaith Economaidd .... 19
10. Effaith Gymunedol .... 20
11. Lefel yr ail gartrefi a llety gwyliau yn ardal y CDLlN .... 27
12. Lefel yr ail gartrefi a / neu llety gwyliau mewn datblygiadau newydd .... 35
13. Ymagwedd ar gyfer aneddiadau a rennir .... 39
14. Casgliad ac argymhellion polisi .... 40

Atodiad 1: Ail gartrefi a llety gwyliau: Effaith ar iechyd cyhoeddus .... 41

Atodiad 2: map yn dangos ardaloedd strategaeth ofodol y CDLlN .... 44

Atodiad 3: Siaradwyr Cymraeg fesul Cyngor Cymuned - Newid 1991-2021 .... 45

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae hwn yn un o gyfres o Bapurau Cefndir sydd yn gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN). Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, mae'n rhaid iddo hefyd egluro sut mae'r polisi wedi'i lunio ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i'r Cyngor ar y pryd.

1.2 Mae lefel yr ail gartrefi a'r llety gwyliau yn fater cynhennus mewn rhai ardaloedd. Mae'r effaith yn gallu bod yn bellgyrhaeddol. Nid yw aelwydydd lleol yn gallu fforddio prisiau tai lleol bob amser, ac maent yn symud o'u cymunedau. Mae mannau preswylio heb breswylwyr parhaol yn golygu bod llai o drigolion sy'n defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau lleol yn rheolaidd, fel ysgolion, llyfrgelloedd, siopau lleol a chyfleusterau hamdden. Mae angen trothwy poblogaeth i gynnal y defnydd o'r rhain. Hebddynt, nid yw cymuned yn gynaliadwy ac mae cymeriad yr ardal leol dan fygythiad. Mae aneddiadau gwledig yn wynebu mwy o berygl yn sgil yr effeithiau hyn na'r ardaloedd trefol oherwydd eu bod yn llai ac mewn lleoliadau anghysbell. Ond, mae effeithiau negyddol hefyd mewn ardaloedd trefol, lle y gall crynodiad lleol effeithio ar faterion fel amwynder preswyl a pharcio.

1.3 Diben y papur cefndir hwn yw nodi'r ymagwedd polisi ar gyfer rheoli ail gartrefi a / neu llety tymor byr drwy'r CDLIN. Nid yw'n nodi ardaloedd posibl ar gyfer Erthygl 4, gan y bydd y rhain yn cael eu holrhain ar wahân.

## 2. Polisi, canllawiau a deddfwriaeth cynllunio cenedlaethol

2.1 Mae'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru (2021) yn cynnwys ymrwymiad i fynd i'r afael ag ail gartrefi mewn cymunedau yng Nghymru. Mae'n nodi y byddant yn:

> "Gweithredu ar unwaith ac yn radical i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn ail gartrefi a thai anfforddiadwy, gan ddefnyddio'r system gynllunio, eiddo a'r system drethu. Mae'r camau sy'n cael eu cynllunio'n cynnwys gosod terfyn ar nifer yr ail gartrefi a thai gwyliau; mesurau i ddod â rhagor o gartrefi o dan berchnogaeth gyffredin; cynllun trwyddedu statudol ar gyfer llety gwyliau; mwy o

bwerau i awdurdodau lleol osod cyfraddau premiwm y dreth gyngor a chynyddu trethi ar ail gartrefi. Byddwn yn ymchwilio i forgeisi awdurdodau lleol".

2.2 Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynnydd yn uchafswm lefel y premiymau treth y cyngor ar gyfer ail gartrefi a rheolau treth lleol newydd ar gyfer llety gwyliau, a fydd yn berthnasol o fis Ebrill 2023:

- Bydd awdurdodau lleol yn gallu gosod premiymau treth y Cyngor o hyd at 300% ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. Gall y Cynghorau ddewis y lefel sy'n briodol ar gyfer eu hamgylchiadau lleol, a gallant osod premiymau gwahanol ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor.

- Bydd y meini prawf ar gyfer penderfynu bod llety hunan arlwyo'n atebol i dalu ardrethi busnes yn hytrach na'r dreth gyngor yn cynyddu gan olygu bod gofyn i'r eiddo fod ar gael i'w osod am o leiaf 252 diwrnod, a'i osod am o leiaf 182 diwrnod mewn cyfnod o 12 mis.

2.3 Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru, yn unol â'r ymrwymiad yn eu Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru. Y cam cychwynnol yw sefydlu cynllun cofrestru, cyn cyflwyno cynllun trwyddedu. Gallai cynllun trwyddedu statudol:

- Ddarparu'r mecanwaith i fynd i'r afael â phryderon o ran cydymffurfiaeth, gan ofyn i weithredwyr ddangos tystiolaeth fod ganddynt ofynion penodol, megis yswiriant priodol, cadarnhad o statws cynllunio, tystiolaeth o asesiad risg tân, tystysgrif diogelwch nwy, a thystiolaeth o ddiogelwch trydanol.

- Darparu cronfa ddata gynhwysfawr o ran pwy yn union sy'n gweithredu yn y diwydiant gan nad oes modd pennu faint o fusnesau llety gwyliau sydd yng Nghymru, neu mewn unrhyw gymuned benodol ar hyn o bryd.

- Bod yn declyn gwerthfawr i ddeall maint a natur y sector.

2.4 Daeth pwerau cynllunio newydd i rym ar 20 Hydref 2022. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau i'r gorchymyn dosbarthiadau defnydd:

- Dosbarth C3: Tai annedd, a ddefnyddir fel unig, neu brif fan preswylio
- Dosbarth C5: Tai annedd, a ddefnyddir heblaw fel unig, neu brif fan preswylio
- Dosbarth C6: Llety tymor byr

2.5 Gall awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer ardal benodol, lle bydd angen caniatâd cynllunio i newid defnydd o C3 i C5 neu C6. Caniateir newid o C5 neu C6 i C3 heb fod angen caniatâd cynllunio.

2.6 Roedd y Polisi Cynllunio Cenedlaethol hefyd wedi'i ddiweddaru fel rhan o hyn. Mae paragraff 4.2.5 o Bolisi Cynllunio Cymru yn nodi y gallai awdurdodau cynllunio lleol gyflwyno terfyn neu uchafswm o ran nifer yr ail gartrefi a llety tymor byr mewn ardal ddynodedig. Mae paragraff 4.2.27 yn nodi y dylai bod hyn yn seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys ystyried materion fforddiadwyedd lleol.

2.7 Mae PCC yn argymell dull cydlynol. Gallai hyn gynnwys nodi safleoedd mewn cynlluniau datblygu ar gyfer cartrefi newydd sy'n gyfyngedig i unig fan preswylio neu brif fan preswylio ar gyfer tai'r farchnad agored leol a / neu gyflwyno ardaloedd Erthygl 4 lle efallai y byddai angen caniatâd cynllunio i newid defnydd o brif fan preswylio i ail gartref neu lety tymor byr.

2.8 Pe byddai ardal Erthygl 4 yn cael ei chyflwyno, bydd amod cynllunio'n gysylltiedig â phob adeilad newydd yn yr ardal, sy'n cyfyngu eu defnydd fel ail gartref neu lety gwyliau.

2.9 Mae PCC yn annog twristiaeth lle bo'n cyfrannu'n gadarnhaol ac yn cydnabod anghenion ymwelwyr a chymunedau lleol. Anogir cefnogi twristiaeth bresennol a darpariaeth twristiaeth newydd. Mae hefyd yn amlinellu, mewn rhai ardaloedd, efallai y bydd yn ofynnol cyfyngu datblygiadau newydd i osgoi difrodi'r amgylchedd neu amwynder preswylwyr neu ymwelwyr.

2.10 Ar gyfer ardaloedd gwledig, mae PCC yn credu bod twristiaeth yn rhan allweddol o economi wledig iach ac amrywiol. Mae'n hyrwyddo arallgyfeirio a

chefnogi'r economi wledig. Mae twristiaeth yn un o'r dewisiadau arallgyfeirio ar gyfer busnesau gwledig.

2.11 Mae Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol hefyd yn hyrwyddo twristiaeth fel rhan allweddol o economi Cymru. Mae'n awgrymu y dylid ystyried mathau cynaliadwy o dwristiaeth.

## 3. Cysylltiadau â pholisïau rhanbarthol

3.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn statudol ofynnol i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynhyrchu Cynllun Lles Lleol ar gyfer eu hardal. Amcan Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych (2023-2028) yw gwneud Conwy a Sir Ddinbych yn lleoedd mwy cyfartal gyda llai o amddifadedd. Mae'r cynllun hefyd wedi dynodi pedair thema allweddol i ategu hyn:

- Lles – Mae cymunedau'n hapusach, yn fwy iach ac yn fwy gwydn i wynebu heriau, fel yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur, neu'r cynnydd mewn costau byw.
- Economi – Mae'r economi'n llewyrchus, wedi'i chefnogi gan weithlu medrus sy'n barod at y dyfodol.
- Cydraddoldeb – Mae rhai sydd â nodweddion gwarchodedig yn wynebu llai o rwystrau.
- Tai - Mae gwell mynediad at dai o ansawdd da.

## 4. Cysylltiadau â pholisïau lleol

4.1 Nodir y nodau perthnasol o Gynllun Corfforaethol Conwy 2022-27 isod:

- Nod Hirdymor 3: Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sy'n ffynnu, sydd â llai o dlodi ac sy'n cefnogi dysgu a sgiliau.

- Nod Hirdymor 4: Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd.

4.2 Mae Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych (2023-2028) yn nodi argaeledd tai fel maes allweddol i helpu i gyflawni'r nod gyffredinol o 'Gymru sy'n fwy cyfartal'. Mae'n nodi'r cam canlynol sy'n berthnasol:

> "Adolygu faint o dai sydd ar gael yn ein sir i sicrhau bod yna ddarpariaeth o ansawdd sy'n ateb anghenion preswylwyr, eu cynorthwyo i arwain bywydau annibynnol mewn llety priodol am gymaint â phosibl".

4.3 Mae Strategaeth Twf Economaidd Conwy 2017-2027 yn cefnogi cyflawni'r flaenoriaeth sy'n ymwneud â'r economi yn y Cynllun Corfforaethol. Mae Uchelgais 4, datblygu'r economi min nos a chynnig twristiaeth dros fisoedd y gaeaf ar draws y sir, gan wneud Conwy yn gyrchfan i ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn, yn berthnasol. Mae'r Strategaeth hefyd yn tynnu sylw at yr angen am gynaliadwyedd gwledig, diogelu'r fferm deuluol a chynllunio olyniaeth ar gyfer ffermydd y dyfodol.

4.4 Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy 2019-29 yn nodi gweledigaeth a blaenoriaethau ar gyfer yr ardal o safbwynt twristiaeth, sy'n rhan allweddol o economi Conwy. Mae'n ceisio cydlynu holl agweddau cyrchfan sy'n cyfrannu at brofiad ymwelydd, gan ystyried anghenion yr ymwelwyr, preswylwyr lleol, busnesau a'r amgylchedd.

4.5 Mae Creu Conwy - Strategaeth Ddiwylliannol 2021-26 yn rhoi'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth wrth wraidd bywyd cymunedol yn Sir Conwy. Mae gan y rhain rôl allweddol o safbwynt cymeriad y Fwrdeistref Sirol. Mae Llanrwst yn cael ei nodi fel Sbardun, lle mae pobl, syniadau a chreadigrwydd yn cael eu dwyn ynghyd. Mae'r strategaeth yn cydnabod rôl cyfleusterau fel eglwysi, capeli, ysgolion a thafarndai, ac yn ceisio cefnogi cysylltiadau cryf rhwng y rhain a'r Sbardunau.

4.6 Mae Strategaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Conwy 2021-2026 yn nodi sut mae'r Cyngor am ddarparu gwasanaethau llyfrgell. Mae'n gysylltiedig â blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol i ddatblygu ein llyfrgelloedd i fod yn ganolbwyntiau cymunedol sy'n darparu ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau.

4.7 Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Conwy 2022-32 yn cefnogi gweledigaeth i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol hyderus a rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Addysg cyfrwng Cymraeg / dwyieithog yw un o'r prif ffyrdd o sicrhau y gall plant ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ynghyd â chreu siaradwyr Cymraeg newydd.

4.8 Mae Cicdanio Cynllun Cynefin yng Nghonwy Wledig yn archwilio llunio cynllun dan arweiniad y gymuned ar gyfer cymunedau gwledig. Mae'n ystyried yr heriau a wynebir gan gymunedau gwledig, a'r opsiynau sydd ar gael i'w cefnogi. Mae'n crynhoi'r canlynol o ran heriau tai yn yr ardal:

> "Mae diddordeb cynyddol i fyw yng nghefn gwlad wedi cynyddu prisiau a rhenti tai ac mae cartrefi gwledig yn cael eu troi'n llety gwyliau. Mae'r diffyg tai i bobl leol yn cael effeithiau difrifol ar gymunedau gwledig, busnesau gwledig, a'r economi mewn ardaloedd gwledig a chaiff ei ystyried fel cyfrannwr allweddol i brinder gweithwyr.
>
> Fe allai poblogaeth gyda mwy o amrywiaeth o ran oedran gefnogi ystod ehangach o wasanaethau a busnesau lleol, ond mae hyn yn dibynnu ar gael cyflenwad o dai sy'n ddigon amrywiol. Caiff hyn ei gydnabod gan y system gynllunio, sy'n annog ac yn galluogi datblygu gwledig, yn enwedig ar gyfer tai fforddiadwy. Fodd bynnag, gall darparu ystadau o faint anghymesur ar aneddiadau gwledig mwy effeithio ar gymeriad, felly mae angen ymagwedd ofalus a chytbwys. Mae diddordeb cynyddol mewn anheddau menter wledig, datblygiadau un blaned a chynlluniau tai a arweinir gan y gymuned."

4.9 Mae'r Strategaeth Tai Lleol 2018-23 yn amlinellu gweledigaeth a chynlluniau y Cyngor ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae themâu ac amcanion allweddol y strategaeth yn berthnasol:

- **Tai fforddiadwy**: Byddwn yn cynyddu cyflenwad dewisiadau tai fforddiadwy i'r rhai ar incwm is.

- **Tai Priodol**: Byddwn yn gweithio tuag at ddiwallu anghenion llety a chymorth amrywiol pawb yn ein Sir, yn awr ac yn y dyfodol.
- **Ansawdd Tai** : Byddwn yn gwella cyflwr a safonau effeithlonrwydd ynni ein tai.
- **Dewis Gwybodus**: Byddwn yn sicrhau bod pobl yn deall eu dewisiadau tai, er mwyn iddynt fedru gwneud penderfyniad cytbwys

4.10 Lluniwyd Prosbectws Tai Lleol Conwy er mwyn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a budd-ddeiliaid eraill i wneud penderfyniadau gwybodus am ble i chwilio am dir ac eiddo ar gyfer darparu tai fforddiadwy newydd. Mae'n darparu crynodeb o'r galw am dai fforddiadwy yng Nghonwy a'r blaenoriaethau tai strategol ar gyfer y 12 mis nesaf.

4.11 Mae Asesiad y Farchnad Dai Leol (2022-37) yn amcangyfrif lefel yr angen am dai fforddiadwy a thai'r farchnad yn y Fwrdeistref Sirol. Mae cymhwyso hyn i derfyn amser y CDLIN sy'n weddill yn rhagweld bod 2,295 o aelwydydd angen tai cymdeithasol, 1,335 o aelwydydd angen tai canolradd a 1,290 o aelwydydd angen tai'r farchnad agored. Gweler Papur Cefndir 11 am fwy o fanylion.

4.12 Mae lefel y cartrefi gwag ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae Strategaeth Cartrefi Gwag Conwy 2019 yn amlinellu sut fydd y Cyngor yn mynd i'r afael â hyn, drwy ddod â nhw yn ôl i feddiannaeth a darparu llety drwy hynny. Mae rhai yn cael eu troi'n unedau fforddiadwy.

4.13 Mae'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym 2022 yn amlinellu sut fydd y Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru i wneud digartrefedd yn rhywbeth 'prin, cryno ac na chaiff ei ailadrodd'. Mae'r lefel uchel o 'eiddo aneffeithiol', sy'n cynnwys ail gartrefi ac unedau gosod tymor byr, wedi'i nodi fel problem.

4.14 Ym mis Hydref 2024, fe wnaeth y Cyngor y penderfyniadau canlynol:

- Codi Premiwm Treth y Cyngor o 150% ar ail gartrefi o 1 Ebrill 2025

- Codi Premiwm Treth y Cyngor o 200% ar gartrefi gwag hirdymor a fu’n wag ers 5 mlynedd neu lai o 1 Ebrill 2025 ymlaen.
- Codi Premiwm Treth y Cyngor o 300% ar gyfer cartrefi gweigion hirdymor sydd wedi bod yn wag ers 5 mlynedd neu fwy o 1 Ebrill 2025 ymlaen
- Cytuno ar bremiwm dangosol o 200% ar gyfer y ddau gategori o 1 Ebrill 2026 ymlaen, gyda phremiwm uwch o 300% ar gyfer eiddo gwag hirdymor a fu’n wag am bedair blynedd neu fwy, ac adolygu’r drefn yn ystod 2025/2026.

## 5. Dewisiadau polisi

5.1 Mae tri dewis polisi y bydd y papur hwn yn eu hystyried i’w cynnwys yn y CDLIN. Y cyntaf yw amod cynllunio ar gyfer adeiladau newydd, sy’n cyfyngu eu defnydd i brif fan preswylio’n unig, ac yn rhwystro eu defnydd fel ail gartref a llety tymor byr. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno mewn ardaloedd neu fathau o ddatblygiad lle bo tystiolaeth yn cyfiawnhau hynny.

5.2 Mae Papur Cefndir 69: Tai Gwledig yn ystyried yr ymagwedd polisi yn Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig y CDLIN. Mae’r papur yn dod i’r casgliad canlynol (paragraff 7.3.2):

> “Mae’r data uchod yn dangos y byddai o fudd i aneddiadau bach yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig osod cyfyngiadau meddiannaeth C3 ar eiddo newydd. Mae’r dangosyddion uchod yn dangos bod diffyg cyflenwad tai yn yr aneddiadau hyn, sy’n cael effaith negyddol ar fforddiadwyedd a gallu aelwydydd lleol i brynu ar y farchnad agored. Felly, byddai sicrhau bod unrhyw dai’r farchnad agored a thai’r farchnad agored at angen lleol sy’n cael eu hadeiladu yn y dyfodol yn aros yn y stoc tai parhaol yn fuddiol iawn. Ni fyddai’n berthnasol yn ôl-weithredol, felly ni fydd yn effeithio ar anheddau presennol.”

5.3 Mae’r ail ddewis polisi yn gysylltiedig ag unrhyw ardaloedd Erthygl 4 newydd. Gallai’r CDLIN gynnwys polisi a fyddai’n gosod trothwy priodol lle byddai angen caniatâd cynllunio i newid defnydd o C3 i’r dosbarthiadau defnydd

newydd C5 a C6, a / neu ganiatáu rhaeadru lle y gellir caniatáu newid defnydd, pe byddai'r annedd wedi'i farchnata'n briodol am bris rhesymol ar gyfer defnydd C3 am gyfnod priodol o amser er enghraifft. Mae'r papur hwn yn ystyried y dystiolaeth ar gyfer gosod trothwy o'r fath.

5.4 Mae'r trydydd dewis polisi'n gysylltiedig â pharagraff 4.2.10 y PCC lle y gellir nodi safleoedd tai mewn cynlluniau datblygu, sydd wedi'u cyfyngu i ddefnydd C3 yn unig. Mae Papur Cefndir 69: Tai Gwledig yn ystyried hyn yn Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig y CDLIN. Mae dyraniad safle ar gyfer tai yn Llanrwst. Mae'r papur cefndir yn dod i'r casgliad nad oes tystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau'r cyfyngiad hwn ar hyn o bryd (paragraff 7.3.3). Bydd y papur hwn yn ystyried ardaloedd trefol.

## 6. Trothwy

6.1 Pe byddai'r awdurdod cynllunio lleol yn cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn y dyfodol i reoli lefelau'r ail gartrefi a llety gwyliau mewn ardal benodol, bydd angen trothwy mewn polisi er mwyn gallu asesu ceisiadau cynllunio yn erbyn y lefel hon. Nid yw Polisïau Cynllunio Cenedlaethol yn nodi beth ddylid ei osod fel trothwy. Gall awdurdodau cynllunio lleol nodi eu trothwyon eu hunain, i sicrhau eu bod yn adlewyrchu eu hardal leol. Mae'n bwysig bod y trothwy ar lefel sy'n darparu cydbwysedd rhwng rheoli unrhyw effeithiau negyddol ar y gymuned leol o or-grynodiad o'r defnyddiau hyn, ond sy'n cefnogi twristiaeth ac anghenion eraill ar gyfer ail gartrefi.

6.2 Roedd ymchwil a gynhaliwyd yn Ardal y Llynnoedd[1] yn argymell trothwyon o 20% a 10% ar gyfer rheoli y defnyddiau hyn i sicrhau bod cymunedau'n gynaliadwy. Mae Cyngor Northumberland wedi cyflwyno polisi prif fan preswylio, sy'n berthnasol i gymunedau gydag 20% neu fwy o aelwydydd gwag. Mae hyn yn deillio o Gyfrifiad 2011 ac mae'n cynnwys rhai anheddau gwag ac ail gartrefi, ond nid yw'n cynnwys eiddo busnes (llety gwyliau cofrestredig). Er bod y cymariaethau hyn yn ddefnyddiol, mae angen cymryd

[1] South Lakeland District Council, Lake District National Park, Cumbria rural Housing Trust and Eden District Council (2010) Review of Second Home Data and Assessment of the Effects Second Homes are Having on Rural Communities

gofal i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r Gymraeg mewn polisïau sy'n effeithio ar Fwrdeistref Sirol Conwy, lle bo cyfrannau uchel o siaradwyr Cymraeg mewn rhai cymunedau.

6.3 Mewn rhai ffyrdd, mae effaith crynodiadau o ail gartrefi a llety gwyliau ar gymuned leol yn debyg i ardaloedd lle bo crynodiadau o Dai Amlfeddiannaeth. Mae'r CDLIN yn cynnig polisi ar gyfer rheoli Tai Amlfeddiannaeth ac yn cymhwyso trothwy o 10% (gweler Papur Cefndir 12 i gael rhagor o fanylion).

6.4 Mae awdurdodau cynllunio lleol Gwynedd ac Eryri wedi cyflwyno trothwy o 15% ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau wrth gyflwyno ardaloedd Erthygl 4 i reoli'r defnydd hyn. Mae buddion drwy gymhwyso trothwy cyson yn ardal awdurdod cynllunio lleol Conwy, er enghraifft, drwy osgoi dadleoliad o fewn ardaloedd Erthygl 4. Mae hefyd yn caniatáu cydweithio a rhannu arferion da yn y dyfodol.

6.5 Mae dadansoddiad manwl o ddata lefel pwynt sy'n dangos lleoliadau ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr yn nodi bod clystyrau bach o grynodiadau o'r defnyddiau hyn. Wrth ystyried ardal fwy fel Cyngor Cymuned neu Ward Etholiadol, mae'r clystyrau bach hyn yn cael eu methu. Gall yr effaith leol hefyd ddigwydd gyda Thai Amlfeddiannaeth. Er mwyn rheoli hyn, canfuwyd bod 50 metr yn fuddiol (gweler Papur Cefndir 12).

## 7. Effaith ar y farchnad dai

7.1 Mae'r penawdau isod yn rhoi trosolwg cyffredinol o dai yn y Fwrdeistref Sirol.

- Mae 58,050 annedd ym Mwrdeistref Sirol Conwy.
- Mae pumed o gyfanswm y stoc dai yn eiddo ar wahân. 15% yn dai teras, sy'n isel o gymharu â chyfartaledd Cymru (29%).
- Ym mis Mawrth 2021 roedd 7,010 o anheddau yn y sector tai cymdeithasol. Roedd hyn yn 129 am bob 1,000 o aelwydydd, a oedd yn sylweddol is na lefel Cymru Gyfan o 175 am bob 1,000 o aelwydydd. Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy gyfran uwch o dai gwarchod a thai gofal ychwanegol yn ei stoc dai na chyfartaledd Cymru.

- Rhwng 2018 a 2033, mae angen 4,300 o gartrefi newydd (gan gynnwys rhai wrth gefn). Hyd yma, mae 1,435 o gartrefi newydd wedi'u hadeiladu ers dechrau cyfnod y CDLIN.
- Yr hyn sydd i'w weld ym Mwrdeistref Sirol Conwy yw lefelau cymharol isel o rentu cymdeithasol o fewn y farchnad dai a lefelau uwch na'r cyfartaledd o rentu preifat a pherchnogaeth tai (yn enwedig o ran y sawl sy'n berchen yn llwyr ar eu cartrefi eu hunain).
- Yn 2021, roedd 52,250 o aelwydydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae disgwyl i nifer yr aelwydydd gynyddu o 1,850 (3.4%) rhwng canol 2020 a chanol 2030. Disgwylir i faint cyfartalog aelwydydd ostwng o 2.16 i 2.13. Y ffactor mwyaf yn y newid hwn yw'r twf disgwyliedig yn nifer yr aelwydydd un unigolyn.
- Pensiynwyr sy'n byw ar eu pen eu hunain yw'r rhan fwyaf o aelwydydd un unigolyn. Yn 2021, amcangyfrifwyd bod 9,300 o aelwydydd pensiynwr sengl ym Mwrdeistref Sirol Conwy– a oedd yn 18% o'r holl aelwydydd. Wrth i ddisgwyliad oes gynyddu ac wrth i do twf ar ôl yr Ail Ryfel Byd gyrraedd oedran pensiwn, gellir disgwyl cynnydd yn nifer yr aelwydydd pensiynwr sengl.
- Ym mis Ebrill 2025 nifer yr ymgeiswyr ar gofrestr tai cymdeithasol oedd 1,563. Mae nifer yr ymgeiswyr ar y gofrestr tai cymdeithasol wedi bod yn gostwng ers mis Hydref 2024 oherwydd bod tîm y gofrestr tai cymdeithasol wedi bod yn canolbwyntio ar adolygu ceisiadau am y 12 mis diwethaf i wella cywirdeb. Er bod nifer yr ymgeiswyr ar y gofrestr tai cymdeithasol wedi gostwng ers mis Hydref 2024, mae nifer yr ymgeiswyr sydd wedi'u cofrestru o 1 Ebrill 2025 68% yn uwch na 1 Ebrill 2020.
    - Mae dros hanner yr ymgeiswyr ar y rhestr aros eisiau eiddo un ystafell wely, lle bo 31.4% o anheddau tai cymdeithasol Bwrdeistref Sirol Conwy'n eiddo un ystafell wely.
    - Ar gyfartaledd yr amser (canolrif) a dreulir ar y rhestr aros i ymgeiswyr sy'n dal ar y rhestr yw 859 diwrnod. Mae hyn wedi codi o 371 diwrnod ym mis Ebrill 2020 (cyn y pandemig).

- Ym mis Medi 2021 roedd 2,063 o aelwydydd ar gofrestr Tai Teg a oedd eisiau cymorth i ganfod tai fforddiadwy ym Mwrdeistref Sirol Conwy.
- Yn 2022/23 bu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ymdrin â 1,089 o aelwydydd a oedd angen cymorth i atal neu leddfu digartrefedd. Mae'r gyfradd gyffredinol fesul 10,000 o aelwydydd yn uwch nag ar gyfer Gogledd Cymru (208.5 o gymharu â 165.6).
- Ym mis Mawrth 2023, roedd gan Fwrdeistref Sirol Conwy 318 o aelwydydd digartref a oedd wedi'u lleoli mewn llety dros dro. Mae'r gyfradd gyffredinol fesul 10,000 o aelwydydd yn uwch nag ar gyfer Gogledd Cymru - 60.88 o gymharu â 48.38.
- Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy gyfradd uwch o aelwydydd sy'n cynnwys plant mewn llety dros dro na chyfartaledd Gogledd Cymru (94.92 o gymharu â 47.97).
- Gallai oddeutu 1,680 aelwyd yn y Fwrdeistref Sirol gael eu hystyried yn orlawn dan y diffiniad pob ystafell. Mae'r cyfraddau aelwydydd gorlawn yn debyg i gyfartaledd Gogledd Cymru.
- Yn 2023, cyfartaledd (canolrif) prisiau tai ym Mwrdeistref Sirol Conwy oedd £202,000. Mae prisiau tai 40% yn uwch nag yr oeddent 10 mlynedd yn ôl.
- Mae costau prynu tŷ sy'n eithaf uchel yn yr ardal wedi peri pryder ers peth amser. Mae cyfartaledd prisiau tai ar hyn o bryd dros 3.7 gwaith yr hyn oedd ym mis Ebrill 2000 (sef oddeutu dechrau'r ffyniant tai mawr diwethaf). Mewn cymhariaeth, mae cyfartaledd cyflogau llawn amser oddeutu 1.9 gwaith yr hyn yr oeddent yn 2000.
- Ar lefel ganolrif, mae cymhareb incwm i brisiau tai ym Mwrdeistref Sirol Conwy'n 1:5.99. Hyd yn oed gyda blaendal o 20% - sy'n gostwng y gymhareb i 1:4.79 – mae tai ar bris canolrif y tu hwnt i gyrraedd pobl gydag incwm y cartref cyfartalog.
- Ym mis Chwefror 2024, roedd 9,850 o aelwydydd yn derbyn budd-daliadau'n ymwneud â thai. Roedd hwn yn ostyngiad o -25 aelwyd ers y flwyddyn gynt, ond roedd yn llawer uwch nag yr oedd cyn y pandemig (14% yn uwch neu 1,200 yn fwy o aelwydydd).

- Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy gyfran is o eiddo mewn bandiau treth y cyngor A a B o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (23.6% o gymharu â 35.3%). Mae hyn yn awgrymu fod cyfran lai o eiddo gwerth isaf yn y stoc anheddau na sydd i'w gael ar draws Cymru gyfan.
- Ym mis Awst 2023, roedd 9,760 o aelwydydd yn derbyn budd-daliadau'n ymwneud â thai ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

7.2 Mae'r adran ganlynol yn ystyried fforddiadwyedd tai mewn rhagor o fanylder. Mae'r tabl isod yn dangos y prisiau tai canolrifol ar gyfer y mathau gwahanol o dai fesul ardal strategol y CDLIN. Mae canolrif prisiau tai yn amrywio fesul ardal strategol, o'r isaf yn £200,000 yn y Dwyrain, o gymharu â'r uchaf yn £222,500 yn ardal Creuddyn. Wrth ystyried mathau penodol o dai, mae'r gwahaniaethau'n fwy. Mae tai ar wahân yn amrywio o £250,000 yn y Dwyrain i £345,000 yn y Gorllewin. Mae fflatiau'n amrywio o £87,000 yn y Dwyrain i £138,000 yn ardal Creuddyn. Mae tai pâr yn amrywio o £177,000 yn y Dwyrain i £220,000 yn y Gorllewin. Mae tai teras yn amrywio o £136,000 yn y Dwyrain i £189,000 yn ardal Creuddyn.

**Ffigur 1: tabl yn dangos prisiau tai (canolrifol) fesul math o lety (2024)**

| Ardal | Pob math o dŷ | Tŷ sengl | Fflatiau | Tŷ pâr | Tŷ teras |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdeistref Sirol Conwy | £210,000 | £303,100 | £125,000 | £200,000 | £165,050 |
| Ardal strategaeth y Gorllewin: | £217,500 | £345,000 | £122,000 | £220,000 | £158,000 |
| Ardal strategaeth y Creuddyn: | £222,500 | £341,000 | £138,500 | £217,000 | £189,000 |
| Ardal strategaeth Ganolog: | £205,000 | £319,000 | £124,000 | £205,000 | £153,500 |
| Ardal strategaeth y Dwyrain: | £200,000 | £250,000 | £87,000 | £177,000 | £136,000 |
| Ardal strategaeth wledig | £210,000 | £355,000 | £120,250 | £180,000 | £172,000 |

Ffynhonnell: Data Prisiau a Dalwyd y Gofrestrfa Tir

Sylwch: Mae'r ardal wledig yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri.

7.3 Mae'r tabl isod yn ystyried fforddiadwyedd eiddo â phrisiau tai canolrifol ac yn y chwartel isaf o'i gymharu â'r incwm canolrifol. Mae cymhareb (neu luosydd)

prisiau tai ac incymau aelwyd yn dangos pa mor fforddiadwy yw tai yn yr ardal ar gyfer prynwyr tro cyntaf. Fel arfer, bydd angen cymhareb o 3 i 4 gwaith incwm i fedru fforddio morgais. Mae data gan LIC ar gyfer yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, yn dangos bod y gymhareb prisiau tai i incwm ar gyfer y rhai hynny sydd wedi prynu tŷ ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn 4.4.

7.4 Yn 2024, y gymhareb ar gyfer cyfartaledd (canolrif) prisiau tai i incwm canolrifol oedd 5.7 ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy, sy'n uwch na'r gymhareb o 4.4 ar gyfer prynu tai yn ddiweddar. Hyd yn oed os bydd prynwr yn llwyddo i gynilo blaendal, mae'r pris canolrifol allan o gyrraedd pobl gydag incwm aelwyd cyfartalog. Mae'r gymhareb ychydig yn uwch na chymhareb Cymru (5.4). Ardal y strategaeth wledig sydd â'r gymhareb isaf o 5.5. Ardal strategaeth y Dwyrain sydd â'r gymhareb uchaf yn 6.0.

**Ffigur 2: tabl yn dangos prisiau tai (canolrifol) fesul math o lety (2024)**

| Ardal | Pris tŷ canolrifol | Pris tŷ yn y chwartel isaf | Canolrif incwm aelwyd | Cymhareb pris tŷ canolrifol | Cymhareb pris tŷ yn y chwartel isaf |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | £200,000 | £140,000 | £36,900 | 5.4 | 6.6 |
| Bwrdeistref Sirol Conwy | £210,000 | £160,000 | £36,700 | 5.7 | 7.6 |
| Ardal strategaeth y Gorllewin: | £217,500 | £152,000 | £37,250 | 5.8 | 7.1 |
| Ardal strategaeth y Creuddyn: | £222,500 | £165,000 | £38,000 | 5.9 | 7.6 |
| Ardal strategaeth Ganolog: | £205,000 | £143,500 | £36,250 | 5.7 | 6.9 |
| Ardal strategaeth y Dwyrain: | £200,000 | £157,500 | £33,600 | 6.0 | 8.1 |
| Ardal strategaeth wledig | £210,000 | £167,500 | £38,450 | 5.5 | 7.6 |

Ffynhonnell: Data Prisiau a Dalwyd y Gofrestrfa Tir

Sylwch: Mae'r ardal wledig yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri.

7.5 Er ei fod ymddangos yn fwy fforddiadwy, mae'r mwyafrif o dai yn y chwartel isaf yn eiddo llai (er enghraifft, eiddo un ystafell wely a/neu fflatiau wedi'u haddasu) neu'n rhai sydd angen eu hailwampio. Mae gwaith ymchwil blaenorol o eiddo a werthwyd ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn yr ystod prisiau isaf hefyd yn cynnwys nifer sylweddol o randai ymddeol, sydd â chyfyngiadau

o ran pwy sy'n gallu eu prynu. Ni allwn dybio bod yr eiddo rhatach yma yn darparu llety addas i'r holl brynwyr tro cyntaf.

## 8. Y Gymraeg


8.1 Mae'n anodd asesu effaith nifer yr Ail Gartrefi ar y Gymraeg. Mae ardaloedd gwledig Bwrdeistref Sirol Conwy'n gadarnleoedd y Gymraeg, lle bo cyfran uchel o breswylwyr sy'n gallu siarad Cymraeg. Gallai teuluoedd lleol sy'n gorfod byw mewn ardaloedd eraill oherwydd nad oes modd iddynt fyw yn eu cymuned leol, gael effaith negyddol ar y Gymraeg. Mae Ail Gartrefi: Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru, yn nodi "y gallai trawsnewid mwy o dai yn ail gartrefi gael effaith andwyol ar y Gymraeg ynghyd â bod yn annerbyniol o safbwynt cyfiawnder cymdeithasol."

8.2 Y Cyfrifiad yw'r ffynhonnell ddata fwyaf dibynadwy a manwl ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Yng Nghyfrifiad 2001, mae'n nodi bod 29.2% o boblogaeth Conwy sy'n 3 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg. Yn 2011, gostyngodd i 27.4%, ond mae'n sylweddol uwch na ffigwr Cymru gyfan o 19.0%. Yn 2021, roedd hyn wedi gostwng ymhellach i 25.9% ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Roedd amrywiadau o ran hyn, gyda chanrannau uwch yn yr ardaloedd gwledig yn gyffredinol. Crwst (57.4%), Eglwysbach (53.7%), Gower (60.7%), Llangernyw (61.9%), Llansannan (59.5%), Uwch Conwy (61.8%) ac Uwchaled (64.3%) yw'r ardaloedd lle bo dros hanner y boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae'r rhain oll yn yr ardal wledig. Mae Atodiad 3 yn dangos y dadansoddiad llawn fesul Cyngor Tref a Chymuned a'r newid dros amser.

8.3 Mae data'r Cyfrifiad hefyd yn cael ei ryddhau ar lefel ardal gynnyrch bychan iawn. Mae'r map isod yn dangos cyfran y bobl sy'n gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg ar y lefel hon ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'n dangos gwahaniaethau mwy, gyda rhai ardaloedd gwledig lle bo 93.3% o'r preswylwyr yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg, o gymharu â 0.0% mewn rhai ardaloedd arfordirol.

**Ffigur 3: map yn dangos y rhai sy'n gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg fesul ardal gynnyrch (2021).**

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol




## 9. Effaith Economaidd

9.1 Mae ansawdd, lefel a math o lety sydd ar gael yn lleol yn cael effaith sylweddol ar y sector twristiaeth. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae natur llety twristiaeth wedi newid, gan weld cynnydd yn y llety hunanarlwyo, fel llety

gwyliau tymor byr. Maent yn elfen bwysig o'r cynnig twristiaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy ac mae'n bwysig bod digon o gyflenwad o'r mathau hyn o lety, gan gydbwyso gyda rheoli eu lefelau'n briodol. Bydd y twristiaid sy'n aros yn y mathau hyn o eiddo'n gwario ar fwyd, siopa, gwasanaethau a gweithgareddau eraill yn yr ardal leol. Mae hyn yn cefnogi'r economi leol ac yn darparu cyflogaeth.

## 10. Effaith Gymunedol

10.1 Gall effaith crynodiad o ail gartrefi a llety gwyliau byr dymor ar gymunedau fod yn bellgyrhaeddol. Mae preswylfeydd heb breswylwyr parhaol yn golygu bod llai o drigolion sy'n defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau lleol yn rheolaidd, fel ysgolion, llyfrgelloedd, siopau lleol a chyfleusterau hamdden, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae angen trothwy poblogaeth i gynnal defnydd y rhain. Hebddynt, nid yw cymuned yn gynaliadwy ac mae cymeriad yr ardal leol dan fygythiad. Mae aneddiadau gwledig yn wynebu mwy o berygl yn sgil yr effeithiau hyn na'r ardaloedd trefol oherwydd eu bod yn llai ac mewn lleoliadau ynysig. Nid oes modd darparu data penodol i fesur yr effeithiau hyn, ond, bydd yr ardaloedd testun canlynol yn tynnu sylw at effaith bosibl lefelau uchel o'r defnyddiau hyn ar gymuned.

10.2 Mae Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi darparu cyngor o ran yr effaith ar iechyd a lles. Mae hyn ar gael yn Atodiad 1.

### Creu lleoedd ac amwynder cymdogaeth

10.3 Gall newidiadau i lety gwyliau byr dymor C6 gael effaith negyddol ar greu lleoedd ac amwynder preswyl. Gall gynyddu ymddygiad gwrthgymdeithasol, sŵn ac aflonyddwch. Gallai hefyd achosi problemau o ran rheoli gwastraff, traffig a pharcio. Gall cynnydd o ran amlder y rhai sy'n cyrraedd a gadael newid cymeriad ardal hefyd.

10.4 Gall ail gartrefi gael effaith ar greu lleoedd ac amwynder cymdogaeth hefyd. Mae eiddo'n cael ei ddefnyddio am ran o'r flwyddyn, gan olygu eu bod yn wag ar adegau eraill. Mae nifer o eiddo gwag yn gallu arwain at effeithiau negyddol yn lleol o ran y strydlun a diogelwch cymunedol.

### Effaith ar ysgolion

10.5 Gall niferoedd uchel o ail gartrefi a llety gwyliau achosi effaith negyddol ar ysgolion lleol. Byddai mwy o anheddau sy'n cael eu defnyddio fel ail gartrefi neu lety gwyliau yn arwain at golli'r boblogaeth leol oherwydd bod teuluoedd yn gorfod gadael yr ardal. Mewn rhai achosion yng Nghymru, mae gostyngiad yn niferoedd disgyblion wedi arwain at gau ysgolion, sy'n cael effaith negyddol, nid yn unig ar y gymuned gyfan, ond hefyd ar gynaliadwyedd, oherwydd bydd disgyblion yn gorfod teithio'n bellach i gyrraedd yr ysgol mewn rhai achosion. Gallai hefyd olygu mwy o gostau ariannol i'r Cyngor ar gyfer cludiant ysgol.

10.6 Mewn ardaloedd gwledig, gall fod yn anodd recriwtio staff i swyddi mewn ysgolion. Pe byddai gostyngiad yn y boblogaeth leol yn barhaol, gallai hyn achosi anawsterau recriwtio.

### Effaith ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol

10.7 Mae prinder lleoedd mewn cartrefi gofal preswyl ar hyn o bryd yn ardaloedd gwledig y Fwrdeistref Sirol. Mae bron i bob cartref gofal wedi nodi swyddi gwag ar gyfer cynorthwywyr gofal iechyd, uwch gynorthwywyr gofal iechyd, nyrsys a staff domestig ac maent wedi dweud bod hyn wedi cael effaith ar eu gallu i gymryd lleoliadau newydd. O safbwynt gofal yn y gymuned, mae'n anodd recriwtio a chadw staff. Gallai canlyniad hynny olygu bod rhaid defnyddio asiantaethau i ddarparu gofal, sy'n arwain at gostau sylweddol i'r Awdurdod. Mae rhai contractau wedi'u trosglwyddo'n ôl i'r Awdurdod, o ganlyniad i hyn. Mae'n bosibl y bydd y nifer cyfyngedig o gartrefi gofal sy'n gweithredu yn yr ardal wledig yn wynebu risg o gau oherwydd nad ydynt yn gallu cyflogi staff parhaol a'r gost ariannol yn sgil hynny.

10.8 Mae gofalwyr di-dâl yn rhan allweddol o ddarparu gofal i lawer. Maent yn darparu cefnogaeth a / neu ofal di-dâl i un neu fwy o bobl am eu bod yn hŷn, sâl, diamddiffyn neu am fod ganddynt anabledd. Mae'r gofal yn aml yn cael ei ddarparu gan aelodau'r teulu, ffrindiau neu gymdogion. Gellir darparu gofal yn y cartref, yng nghartref rhywun arall, neu o bell. Gall gofalwyr di-dâl gynnig

gofal dros dro neu ofal parhaol a gall gofalu gynnwys cymorth corfforol, ymarferol, emosiynol a chymorth sy'n ymwneud ag iechyd meddwl. Mae ganddynt rôl allweddol yn yr ymagwedd gwasanaeth ataliol hefyd, sy'n cael ei gydnabod yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n hanfodol eu bod hefyd yn gallu aros yn lleol i'w cymuned a theulu estynedig.

10.9 Mae buddion lles ar gyfer unigolyn sydd angen gofal os darperir y gofal yn y gymuned leol, boed yn eu cartref eu hunain neu mewn gwasanaeth preswyl. Mae arwahanrwydd cymdeithasol yn risg os yw unigolyn yn byw gryn bellter o'u teulu a ffrindiau.  Mae gan Gynghorau lleol ddyletswydd i hyrwyddo lles pobl sydd angen gofal a chefnogaeth a gofalwyr di-dâl sydd angen cefnogaeth, fel yr amlinellwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

10.10 Mae gwybodaeth o Asesiad Anghenion y Boblogaeth 2022 yn nodi bod llawer o gartrefi gofal a darparwyr gofal cartref yn ei chael hi'n anodd gweithredu'r broses o ddarparu siaradwr Cymraeg. Mae dyletswydd ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu defnyddio'r gwasanaeth yn eu hiaith ddewisol. Y 'Cynnig Gweithredol' yw'r egwyddor allweddol yn fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg 'Mwy Na Geiriau'. Mae hyn yn golygu y dylid cynnig gwasanaethau yn Gymraeg i bobl heb iddynt orfod gofyn. Mae cael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn elfen bwysig o ddarpariaeth gofal a chymorth ar draws pob grŵp claf. Fodd  bynnag, mae gan rai grwpiau fwy o angen i gael eu gwasanaethau yn y Gymraeg.  Ar gyfer y grwpiau hyn, dylai'r Gymraeg gael ei hystyried fel elfen sylfaenol o ddarpariaeth gwasanaeth. Y grwpiau hyn yw:

- Plant a phobl ifanc
- Pobl hŷn
- Pobl ag anableddau dysgu
- Defnyddwyr gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Gwasanaethau Dementia
- Gwasanaethau Strôc

- Gwasanaethau therapydd iaith a lleferydd.

10.11 Fel y nodir yn Adran 8 uchod, mae crynodiad uwch o siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau gwledig. Felly, mae'n debygol bod defnyddwyr gwasanaeth yn yr ardaloedd hyn yn fwy tebygol o dderbyn a cheisio gwasanaethau yn y Gymraeg.

10.12 Elfen allweddol o sicrhau bod gwasanaethau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol ar gael yn Gymraeg, yn unol ag egwyddor y Cynnig Gweithredol, yw recriwtio a dal gafael ar weithlu sydd â sgiliau Cymraeg. I gyflawni hyn, mae'n rhaid iddynt allu byw yn y gymuned maent yn gweithio ynddi. Mae'r sefyllfa economaidd bresennol gyda chostau chwyddiant a thanwydd cynyddol, a chostau byw ehangach ar ddechrau 2022 yn creu ansefydlogrwydd ar gyfer darparwyr gofal cartref a'u staff er enghraifft tlodi mewn gwaith. Mae sicrhau bod dewisiadau tai priodol ar gael i staff gofal mewn ardaloedd gwledig yn allweddol i ddarparu gofal drwy gyfwng y Gymraeg.

10.13 O safbwynt darpariaeth gofal iechyd, mae lefel uchel o ail-gartrefi a chartrefi gwyliau'n cael effaith wahanol. Gall gostyngiad yn y boblogaeth leol effeithio ar hyfywedd darpariaeth gwasanaeth iechyd mewn ardaloedd lleol, gan y ceir cyllid ar gyfer nifer y cleifion sydd wedi'u cofrestru. Nid yw preswylwyr dros dro yn denu cyllid ychwanegol ar gyfer meddygfeydd teulu. Gall y cynnydd o ran perchnogion ail gartrefi a thwristiaid sy'n aros mewn llety gwyliau tymor byr, roi pwysau ar wasanaethau yn ystod cyfnodau prysur.

### Casglu gwastraff

10.1 Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff domestig. Ar gyfer ail gartrefi, gan eu bod yn wag am gyfran o'r flwyddyn, byddai cost net gwaredu / prosesu gwastraff yn is ac ni fyddai newid i'r costau casglu gan y byddai'r cerbydau'n ymweld â'r eiddo yn ôl y drefn arferol.

10.2 Dylai bod llety gwyliau tymor byr yn derbyn casgliad gwastraff masnachol, lle byddent yn talu ar wahân am y gwasanaeth, ond prin yw'r achosion lle mae hyn yn digwydd mewn gwirionedd. Maent yn aml yn cynhyrchu mwy o wastraff

oherwydd bod eu meddiannaeth yn uwch na'r disgwyl ar gyfer maint yr eiddo'n gyffredinol. Mae newid wythnosol yn creu gwastraff (bwyd dros ben ac ati) a gall ymwelwyr ddod o ardaloedd lle nad yw popeth yn cael ei ailgylchu e.e. gwastraff bwyd.

10.3 Mewn ardaloedd gwledig ynysig, nid yw'n hyfyw nac yn effeithlon o ran costau darparu casgliad gwastraff masnachol wythnosol, gydag eiddo o'r fath yn cael eu casglu fel rhan o'r rowndiau gwastraff domestig. Gallai niferoedd uchel o lety gwyliau tymor byr mewn ardaloedd o'r fath arwain at broblemau capasiti ar y rowndiau domestig oherwydd bod y cyfraddau gwastraff yn uwch.

10.4 Byddai gallu nodi a chyfrifo nifer y llety gwyliau tymor byr presennol yn fanwl gywir mewn ardal yn fuddiol i'r gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu gan y byddai'n galluogi dylunio llwybrau casglu'n well a chynllunio'r gwasanaeth yn well, ynghyd ag adennill y costau llawn am y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid masnachol.

### Gwasanaethau Hamdden

10.5 Ar yn o bryd mae gan y Cyngor ganolfan hamdden a phwll nofio yn Llanrwst, ac mae'n cynnal sawl dosbarth ymarfer mewn cymunedau gwledig. Mae'r rhain yn darparu gwasanaethau iechyd a lles pwysig i gymunedau lleol. Mae rhai perchnogion ail gartrefi a thwristiaid yn defnyddio'r cyfleusterau hamdden sydd ar gael. Byddai gostyngiad mewn preswylwyr llawn amser sy'n defnyddio'r cyfleusterau hyn ac yn mynychu'r dosbarthiadau yn cael effaith ar eu hyfywedd yn y dyfodol, gan fod angen trothwy penodol o'r boblogaeth i'w cynnal.

10.6 Bydd preswylwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig hefyd yn mynychu darpariaethau hamdden ar yr arfordir, ond i lawer, bydd hyn yn golygu y bydd angen teithio cryn bellter, gan ddibynnu ar geir fel cludiant yn aml.

### Llyfrgelloedd

10.7 Mae llyfrgelloedd yn cynnig llyfrau i'w benthyg yn rhad ac am ddim, mynediad at wybodaeth, cyfrifiaduron a chysylltiad Wi-Fi, ac mae'r adeiladau yn ofodau

diogel ac yn byrth ar gyfer lles, dysgu a mwynhad. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n darparu pum llyfrgell ardal yn Llanrwst, Abergele, Conwy, Llandudno a Bae Colwyn a 5 llyfrgell cefnogaeth gymunedol yng Ngherrigydrudion, Bae Cinmel, Penmaenmawr, Llanfairfechan a Bae Penrhyn. Darperir gwasanaeth llyfrgell symudol a chartref i gymunedau sy'n bell o adeiladau llyfrgell ac mae cynnig llyfrgell digidol sy'n cynnig ystod o lyfrau ac adnoddau i'w lawrlwytho.

10.8 Mae'r holl wasanaethau sydd ar gael yn cyfrannu tuag at iechyd a lles drwy leihau unigedd ac arwahanrwydd cymdeithasol ac yn annog cyfranogiad gweithredol. Mae buddion o safbwynt y Gymraeg drwy ddarllen dwyieithog a llythrennedd ar gyfer plant, grwpiau sgwrsio yn y Gymraeg ar gyfer dysgwyr, darpariaeth ddwyieithog neu Gymraeg mewn cyfleoedd cyfranogiad diwylliannol ar draws ystod o weithgareddau o ddarllen ar y cyd ac ysgrifennu creadigol i weithgareddau celf weledol.

10.9 Darperir y gwasanaeth ar gyfer holl aelodau'r cyhoedd, waeth beth fo'u cyfeiriad parhaol. Pe byddai mwy o ymwelwyr i'r Fwrdeistref Sirol yn derbyn mynediad at y gwasanaethau amrywiol sydd ar gael, efallai y byddai angen addasu'r hyn a ddarperir i ddiwallu'r anghenion sy'n newid.

10.10 Byddai cynnydd mewn poblogaethau symudol a gostyngiad mewn preswylfeydd parhaol yn effeithio ar y mathau o raglenni a gweithgareddau sy'n cael eu darparu ynghyd â gofynion o ran staffio a sgiliau, gan y byddai angen symud i ddarparu mwy o raglenni untro a byr dymor.

10.11 Pe byddai gostyngiad yn lefel y preswylfeydd parhaol, gallai hyn effeithio ar y gwasanaethau megis llyfrgell symudol a chartref, gan na fyddai'r gwasanaeth yn hyfyw o dan y trothwy defnydd. Yn yr un modd, byddai perygl i ddyfodol y Gymraeg a'r grwpiau a'r gwasanaethau dwyieithog sy'n cael eu cynnig, gan efallai na fyddai digon o ddiddordeb i'w cynnal. Byddai hyn hefyd yn effeithio ar brynu adnoddau Cymraeg a'r stoc o lyfrau a fyddai angen ei addasu er mwyn ymateb i'r newid mewn anghenion.

10.12 Cynigir gwasanaethau llyfrgell yn ddwyieithog, ac mae staff sy'n medru'r Gymraeg yn rhugl yn ofynnol er mwyn diwallu gofynion cymunedol a

deddfwriaethol Safonau'r Gymraeg.  Pe byddai gostyngiad yn y preswylwyr parhaol lleol sy'n siaradwyr Cymraeg, mae'n debyg y byddai'n effeithio ar recriwtio'n llwyddiannus.

### Sefydliadau crefyddol

10.13 Yn ystod y 19eg a dechrau'r 20fed ganrif, roedd cyfran uchel o boblogaeth Cymru'n mynychu'r capel yn rheolaidd.  I gefnogi hyn, adeiladwyd capeli mewn sawl anheddiad, gan gynnwys rhai gwledig llai.  Yn aml roeddent yn ganolbwynt eu cymuned, ac roeddent yn cyfrannu tuag at ddiwylliant Cymru a diogelu'r Gymraeg.  Roedd sawl eglwys wledig hefyd, gyda swyddogaeth debyg. Mae niferoedd y cynulleidfaoedd wedi gostwng yn ddiweddar, ac mae sawl un wedi cau a / neu wedi'u datblygu at ddibenion eraill.  Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar rai cymunedau gwledig.

### Siopau / banciau / tafarndai

10.14 Mae cyfleusterau masnachol angen cwsmeriaid rheolaidd er mwyn bod yn ariannol hyfyw.  Mae siopau mewn ardaloedd gwledig yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i breswylwyr lleol o ran y nwyddau sy'n cael eu gwerthu a'u rôl yn y gymuned o safbwynt rhyngweithio cymdeithasol.  Mae tafarndai yn darparu lleoliad i gwrdd a chymdeithasu, sy'n allweddol o safbwynt iechyd a lles a chynnal cymuned leol.

10.15 Nid ardaloedd gwledig yn unig sy'n colli banciau.  Mae sawl achos o fanciau'n cau mewn trefi mwy hefyd.  Mae hyn o ganlyniad i newidiadau yn y ffyrdd y mae pobl yn bancio gyda chynnydd yn y gwasanaethau dros y ffôn a'r rhyngrwyd.  Ond, mae rhai gwasanaethau bancio sydd angen ymweliad i gangen ac mae'r rhai mewn ardaloedd gwledig yn aml yn gorfod teithio'n bell i gyrraedd eu cangen leol.

### Effaith ar ffermio

10.16 Mae arallgyfeirio ffermydd yn aml yn gymorth i wella hyfywedd economaidd busnesau ffermio, a gall gyflwyno buddion i'r economi wledig a'r gymuned ehangach.  Trawsnewid adeiladau i ddarparu llety gwyliau (llety gwyliau tymor byr) yw un o'r ffyrdd o arallgyfeirio busnesau ffermio.

10.17 Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi cyflwyno sylwadau o blaid ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gyflwyno pwerau cynllunio newydd i wahanu'r dosbarth defnydd annedd C3 a defnyddio ardaloedd Erthygl 4 i'w rheoli. Maent yn bryderus am yr effaith y mae lefelau ail gartrefi a thai gosod tymor byr yn ei chael ar allu pobl ifanc, teuluoedd ffermio a gweithwyr fferm i fforddio prynu neu rentu yn eu cymuned leol mewn ardaloedd gwledig.

10.18 Nododd Undeb Amaethwyr Cymru fod gan lety gwyliau tymor byr rôl wahanol, a allai ddarparu man preswylio parhaol, o gymharu â llety gwyliau tymor byr ar fferm i arallgyfeirio'r busnes. Mae'n annhebygol y byddai uned ar fferm yn cael ei gymeradwyo fel man preswylio parhaol dan gyfyngiadau cynllunio, oni bai ei fod yn allweddol fel llety ar gyfer gweithiwr fferm.

10.19 Mae cyfran fawr o weithwyr amaeth, coedwigoedd a physgota yn siaradwyr Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.[2] Mae unrhyw effaith negyddol ar y sector hwn felly'n debygol o gael effaith negyddol ar y Gymraeg.

## 11. Lefel yr ail gartrefi a llety gwyliau yn ardal y CDLIN

11.1 Mae'n anodd cyfrifo nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau'n fanwl gywir. Nid oes cyfres ddata benodol sy'n eu cyfrif yn gywir ac yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Mae'r Cyfrifiad yn cynnwys ffigwr ar gyfer eiddo gwag ac eiddo preswyl a ddefnyddir fel ail gyfeiriad. Mae data 2021 yn cynnwys pobl sydd fel arfer yn byw yng Nghymru a Lloegr sydd wedi nodi eu bod yn treulio o leiaf 30 diwrnod y flwyddyn yn y cyfeiriad penodol. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn credu bod nifer yr ail gyfeiriadau a ddefnyddir fel tai gwyliau, a'r bobl sy'n eu defnyddio, yn debygol o fod yn uwch. Nid yw'r niferoedd hyn yn cynnwys eiddo a ddefnyddir fel llety gwyliau tymor byr, a fu unwaith yn fan preswylio parhaol neu lawn amser, os ydynt wedi'u cofrestru fel eiddo busnes. Dylid nodi y cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod pandemig y Coronafeirws (COVID-19), a gallai hyn fod wedi effeithio ar y data.

---

[2]Amaeth yng Nghymru 2019 Crynodeb Sicrhau Dyfodol Cymru (llyw.cymru)

11.2 Mae’r tabl isod yn dangos lefelau’r tai gwag ac ail gartrefi ar draws y Fwrdeistref Sirol yn ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is. Mae’r data ar gyfer unrhyw Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sy’n llai na 10 wedi’u cuddio i sicrhau cyfrinachedd. Mae’r tabl yn dangos bod lefel y tai gwag ac ail gartrefi yn uwch ym Mwrdeistref Sirol Conwy na chyfartaledd Cymru. Mae’r lefelau’n amrywio ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae’r lefelau uwch yn tueddu i fod yn ac o amgylch Parc Cenedlaethol Eryri, mae rhai crynodiadau mewn rhannau o Landudno, Deganwy, Llandrillo yn Rhos a Bae Colwyn.

**Ffigur 4: tabl yn dangos nifer yr eiddo gwag ac ail gartrefi (heb breswylwyr arferol) yn ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (2021)**

| Enw'r Ardal | Cyfanswm | Nifer yr Eiddo gwag | % Eiddo Gwag | Nifer yr Ail gartrefi | % Ail Gartrefi |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | 1,467,190 | 102,875 | 7.0% | 17,575 | 1.2% |
| **BS Conwy** | 57,984 | 4,830 | 8.3% | 925 | 1.6% |
| Abergele Pensarn 1 | 640 | 35 | 5.5% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Abergele Pensarn 2 | 843 | 90 | 10.7% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Betws-y-coed | 898 | 110 | 12.2% | 40 | 4.5% |
| Betws-yn-Rhos | 1,303 | 75 | 5.8% | 10 | 0.8% |
| Bryn | 925 | 85 | 9.2% | 20 | 2.2% |
| Caerhun | 1,083 | 135 | 12.5% | 25 | 2.3% |
| Capelulo | 898 | 65 | 7.2% | 15 | 1.7% |
| Colwyn 1 | 922 | 40 | 4.3% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Colwyn 2 | 837 | 45 | 5.4% | 15 | 1.8% |
| Colwyn 3 | 694 | 40 | 5.8% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Conwy 1 | 800 | 70 | 8.8% | 45 | 5.6% |
| Conwy 2 | 642 | 110 | 17.1% | 30 | 4.7% |
| Conwy 3 | 703 | 40 | 5.7% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Craig-y-Don 1 | 784 | 130 | 16.6% | 35 | 4.5% |
| Craig-y-Don 2 | 836 | 80 | 9.6% | 15 | 1.8% |
| Crwst | 748 | 105 | 14.0% | 10 | 1.3% |
| Deganwy 1 | 1,000 | 95 | 9.5% | 25 | 2.5% |
| Deganwy 2 | 774 | 145 | 18.7% | 50 | 6.5% |
| Eglwysbach | 821 | 75 | 9.1% | 10 | 1.2% |
| Eirias 1 | 754 | 45 | 6.0% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |

| Enw'r Ardal | Cyfanswm | Nifer yr Eiddo gwag | % Eiddo Gwag | Nifer yr Ail gartrefi | % Ail Gartrefi |
|---|---|---|---|---|---|
| Eirias 2 | 661 | 20 | 3.0% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Gele 1 | 638 | 45 | 7.1% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Gele 2 | 640 | 35 | 5.5% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Gele 3 | 1,139 | 30 | 2.6% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Glyn 1 | 1,116 | 50 | 4.5% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Glyn 2 | 1,040 | 125 | 12.0% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Glyn 3 | 914 | 35 | 3.8% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Gogarth 1 | 1,222 | 230 | 18.8% | 65 | 5.3% |
| Gogarth 2 | 690 | 115 | 16.7% | 40 | 5.8% |
| Gower | 706 | 30 | 4.2% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Bae Cinmel 1 | 947 | 55 | 5.8% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Bae Cinmel 2 | 1,226 | 20 | 1.6% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Bae Cinmel 3 | 995 | 20 | 2.0% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Bae Cinmel 4 | 605 | 30 | 5.0% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Llanddulas | 588 | 50 | 8.5% | 10 | 1.7% |
| Llandrillo-yn-Rhos 1 | 618 | 35 | 5.7% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Llandrillo-yn-Rhos 2 | 741 | 85 | 11.5% | 15 | 2.0% |
| Llandrillo-yn-Rhos 3 | 777 | 130 | 16.7% | 35 | 4.5% |
| Llandrillo-yn-Rhos 4 | 637 | 70 | 11.0% | 10 | 1.6% |
| Llandrillo-yn-Rhos 5 | 692 | 40 | 5.8% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Llangernyw | 806 | 70 | 8.7% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Llansannan | 552 | 75 | 13.6% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Llansanffraid | 482 | 90 | 18.7% | 20 | 4.1% |
| Llysfaen 1 | 573 | 25 | 4.4% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Llysfaen 2 | 834 | 20 | 2.4% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Marl 1 | 854 | 55 | 6.4% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |

| Enw'r Ardal | Cyfanswm | Nifer yr Eiddo gwag | % Eiddo Gwag | Nifer yr Ail gartrefi | % Ail Gartrefi |
|---|---|---|---|---|---|
| Marl 2 | 764 | 50 | 6.5% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Mochdre | 956 | 40 | 4.2% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Mostyn 1 | 963 | 65 | 6.7% | 20 | 2.1% |
| Mostyn 2 | 632 | 135 | 21.4% | 25 | 4.0% |
| Pandy | 732 | 55 | 7.5% | 10 | 1.4% |
| Pant-yr-afon / Penmaenan 1 | 895 | 50 | 5.6% | 20 | 2.2% |
| Pant-yr-afon / Penmaenan 2 | 770 | 40 | 5.2% | 20 | 2.6% |
| Penrhyn 1 | 642 | 45 | 7.0% | 15 | 2.3% |
| Penrhyn 2 | 1,109 | 50 | 4.5% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Penrhyn 3 | 1,040 | 55 | 5.3% | 15 | 1.4% |
| Pensarn 1 | 642 | 55 | 8.6% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Pensarn 2 | 882 | 25 | 2.8% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Pentre Mawr 1 | 740 | 70 | 9.5% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Pentre Mawr 2 | 931 | 35 | 3.8% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Rhiw 1 | 794 | 25 | 3.1% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Rhiw 2 | 885 | 10 | 1.1% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Rhiw 3 | 759 | 190 | 25.0% | 35 | 4.6% |
| Rhiw 4 | 691 | 75 | 10.9% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Towyn | 938 | 70 | 7.5% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Trefriw | 651 | 80 | 12.3% | 15 | 2.3% |
| Tudno 1 | 839 | 95 | 11.3% | 15 | 1.8% |
| Tudno 2 | 692 | 35 | 5.1% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Tudno 3 | 669 | 45 | 6.7% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Uwch Conwy | 1,061 | 160 | 15.1% | 45 | 4.2% |
| Uwchaled | 710 | 80 | 11.3% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol

11.3 Ffynhonnell ddata arall yw cofrestr Treth y Cyngor, gan fod yn rhaid i berchnogion ail gartrefi dalu premiwm ar dreth y cyngor. Mae cofrestr cyfraddau annomestig hefyd, sy'n cynnwys is-gategorïau ar gyfer llety tymor byr. Nid yw'r cyfresi data hyn yn gyflawn, fodd bynnag, ac maent yn ddibynnol ar berchnogion tai yn diweddaru eu gwybodaeth gyda'r Cyngor.

11.4 Mae'r tabl isod yn dangos y newid yn nifer yr ail gartrefi ers i'r premiwm Treth y Cyngor gael ei gyflwyno. Mae'r gostyngiad yn y niferoedd hyd at 2022/23 yn debygol o fod oherwydd bod eiddo'n trosglwyddo oddi ar y gofrestr Treth y Cyngor i Gyfraddau Annomestig. Mae'r trothwy ar gyfer nifer y diwrnodau yr oedd eiddo wedi'i osod ac ar gael i'w osod wedi cynyddu wedi hyn, sy'n debygol o arwain at gynnydd eto, lle bo eiddo wedi trosglwyddo o gofrestr cyfraddau annomestig i dreth y Cyngor.

**Ffigur 5: tabl yn dangos nifer yr anheddau sy'n talu premiwm ail gartref**

| Blwyddyn | Nifer BS Conwy | % BS Conwy |
|---|---|---|
| 2019/20 | 1,202 | 2.18% |
| 2020/21 | 1,153 | 2.09% |
| 2021/22 | 1,119 | 2.01% |
| 2022/23 | 1,050 | 1.88% |
| 2023/24 | 1,102 | 1.97% |
| 2024/25 | 1,264 | 2.26% |

Ffynhonnell: Data anheddau Treth y Cyngor (CT1), tabl casglu data LGFS0001 StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Noder: mae'r % yn cael ei gyfrifo o'r holl anheddau y gellir codi tâl amdanynt.

11.5 Gall ystyried y Fwrdeistref Sirol gyfan guddio pocedi bach lle ceir crynodiad o ail gartrefi a / neu eiddo tymor byr mewn ardal. Mae'r tabl a'r map isod yn dangos lefelau'r eiddo lle bo premiwm ail gartref yn berthnasol ar gyfer pob Cyngor Tref a Chymuned. Cymunedau sy'n agos ac yn ffinio gyda Pharc Cenedlaethol Eryri sydd â'r niferoedd uchaf. Dylid nodi hefyd er bod y canrannau'n is yn gyffredinol, mae nifer sylweddol o ail gartrefi a llety gwyliau yn ardaloedd Cyngor Tref Conwy a Llandudno.

**Ffigur 6: tabl yn dangos nifer yr anheddau sy'n talu premiwm ail gartrefi a llety gwyliau sydd ar y gofrestr annomestig yn ôl Cyngor Tref a Chymuned (07/2024)**


| Cyngor Tref a Chymuned | Pob annedd | Nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau | % Ail gartrefi a llety gwyliau | Nifer y Premiymau Ail Gartrefi | % premiwm ail gartrefi | Nifer y llety gwyliau | % Llety gwyliau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **BS Conwy** | **58,975** | **2,325** | **3.9%** | **1,567** | **2.6%** | **758** | **1.3%** |
| Abergele | 5,866 | 57 | 1.0% | 47 | 0.8% | 10 | 0.2% |
| Bae Colwyn | 5,467 | 53 | 1.0% | 42 | 0.8% | 11 | 0.2% |
| Betws-y-coed | 310 | 62 | 20.0% | 25 | 8.1% | 37 | 11.9% |
| Betws-yn-Rhos | 465 | 11 | 2.4% | 7 | 1.5% | 4 | 0.9% |
| Bro Garmon | 360 | 67 | 18.6% | 28 | 7.8% | 39 | 10.8% |
| Bro Machno | 445 | 114 | 25.6% | 78 | 17.5% | 36 | 8.1% |
| Caerhun | 684 | 74 | 10.8% | 49 | 7.2% | 25 | 3.7% |
| Capel Curig | 129 | 32 | 24.8% | 16 | 12.4% | 16 | 12.4% |
| Cerrigydrudion | 356 | 15 | 4.2% | 8 | 2.2% | 7 | 0.2% |
| Conwy | 8,180 | 398 | 4.9% | 266 | 3.3% | 132 | 1.6% |
| Dolgarrog | 212 | 4 | 1.9% | 2 | 0.9% | 2 | 0.9% |
| Dolwyddelan | 295 | 43 | 14.6% | 19 | 8.1% | 19 | 6.4% |
| Eglwysbach | 437 | 19 | 4.3% | 9 | 2.1% | 10 | 2.3% |
| Henryd | 362 | 28 | 7.7% | 16 | 4.4% | 12 | 3.3% |
| Llanddoged a Maenan | 283 | 26 | 9.2% | 7 | 2.5% | 19 | 6.7% |
| Llanddulas a Rhyd-y-Foel | 850 | 16 | 1.9% | 13 | 1.5% | 3 | 0.4% |
| Llandudno | 10,805 | 590 | 5.5% | 414 | 3.8% | 176 | 1.6% |
| Llanfairfechan | 1,826 | 68 | 3.7% | 50 | 2.7% | 18 | 1.0% |
| Llanfairtalhaiarn | 493 | 20 | 4.1% | 10 | 2.0% | 10 | 2.0% |
| Llanfihangel Glyn Myfyr | 94 | 5 | 5.3% | 4 | 4.3% | 1 | 1.1% |
| Llangernyw | 498 | 24 | 4.8% | 14 | 2.8% | 10 | 2.0% |
| Llangwm | 239 | 18 | 7.5% | 9 | 3.8% | 9 | 3.8% |
| Llannefydd | 244 | 9 | 3.7% | 3 | 1.2% | 6 | 2.5% |
| Llanrwst | 1,585 | 41 | 2.6% | 27 | 1.7% | 14 | 0.9% |
| Glan Conwy | 1,117 | 45 | 4.0% | 35 | 3.1% | 10 | 0.9% |
| Llansannan | 600 | 20 | 3.3% | 11 | 1.8% | 9 | 1.5% |
| Llysfaen | 1,124 | 12 | 1.1% | 10 | 0.9% | 2 | 0.2% |
| Mochdre | 877 | 10 | 1.1% | 9 | 1.0% | 1 | 0.1% |
| Hen Golwyn | 3,794 | 37 | 1.0% | 30 | 0.8% | 7 | 0.2% |
| Penmaenmawr | 2,282 | 111 | 4.9% | 78 | 3.4% | 33 | 1.4% |
| Pentrefoelas | 157 | 12 | 7.6% | 6 | 3.8% | 6 | 3.8% |
| Llandrillo-yn-Rhos | 4,152 | 180 | 4.3% | 146 | 3.5% | 34 | 0.8% |

| Cyngor Tref a Chymuned | Pob annedd | Nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau | % Ail gartrefi a llety gwyliau | Nifer y Premiymau Ail Gartrefi | % premiwm ail gartrefi | Nifer y llety gwyliau | % Llety gwyliau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Towyn a Bae Cinmel | 3,852 | 47 | 1.2% | 41 | 1.1% | 6 | 0.2% |
| Trefriw | 430 | 40 | 9.3% | 23 | 5.3% | 17 | 4.0% |
| Ysbyty Ifan | 105 | 17 | 16.2% | 10 | 9.5% | 7 | 6.7% |

Sylwer: mae cyfanswm yr anheddau’n cynnwys yr holl eiddo domestig a llety gwyliau. Mae llety gwyliau gydag amod cynllunio yn atal eu defnydd fel man preswylio llawn amser wedi’u tynnu.

Ffynhonnell: Treth y Cyngor, CBSC

**Ffigur 7: map yn dangos nifer yr anheddau sy'n talu premiwm ail gartrefi a llety gwyliau sydd ar y gofrestr annomestig yn ôl Cyngor Tref a Chymuned (07/2024)**




Contains OS data © Crown copyright and database right 2024
Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and Database Right. All rights Reserved. Contains Ordnance Survey Data. Ordnance Survey Licence number AC0000809654. Crown Copyright and Database Right.

Ffynhonnell: Treth y Cyngor, CBSC

11.6 Mae'r data ar gyfer llety gwyliau yn is na'r gwir nifer o'r math yma o eiddo, gan na fyddai pob llety gwyliau ar y gofrestr annomestig. Er mwyn gallu symud o gofrestr treth y Cyngor ar gyfer eiddo domestig i'r gofrestr annomestig, mae'n rhaid i berchnogion roi tystiolaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio i ddangos bod

yr eiddo wedi'i osod at ddefnydd gwyliau, gan bwy a'r incwm disgwyliedig. Mae'n rhaid iddynt ddangos bod yr eiddo ar gael ac wedi'i osod am nifer penodol o ddiwrnodau. Nid yw pob un yn gallu diwallu'r gofynion hyn. Bydd cynllun cofrestru a thrwyddedu newydd LIC yn darparu darlun sy'n fwy cywir o lefelau'r eiddo hyn, pe byddai'r data ar gael yn y dyfodol.

## 12. Lefel yr ail gartrefi a / neu llety gwyliau mewn datblygiadau newydd

12.1 Gallai polisi'r CDLIN gyflwyno amod cynllunio ar gyfer pob annedd newydd yn ardal y CDLIN, sy'n atal eu defnydd fel ail gartref neu lety gwyliau. Mae adran nesaf y papur hwn yn ystyried hyn drwy ddadansoddi lefelau'r defnydd mewn cynlluniau sydd wedi'u cwblhau ar gyfer pob ardal strategaeth ofodol y CDLIN. Nid yw cynlluniau diweddar wedi'u cynnwys, gan ei bod yn debygol y byddai'r lefelau'n is na'r lefelau gwirioneddol oherwydd yr amser a gymerir i gasglu tystiolaeth i ddiwallu gofynion i gofrestru fel eiddo busnes. Nid yw cynlluniau gwledig wedi'u cynnwys chwaith gan fod Papur Cefndir 69 yn ystyried hyn mewn mwy o fanylder.

12.2 Mae map yn dangos pob ardal strategaeth ofodol yn Atodiad 2.

12.3 Mae'r tabl isod yn dangos y lefelau ar gyfer datblygiadau yn ardal strategaeth y Gorllewin.

**Ffigur 8: tabl yn dangos nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau mewn datblygiadau newydd yn ardal strategaeth y Gorllewin y CDLIN.**

| Safle | Math o annedd | Cyfanswm anheddau | Nifer yr ail gartrefi | Nifer y llety gwyliau | Cyfanswm % |
|---|---|---|---|---|---|
| Tir ger Fernbank, Penmaenmawr Road, Llanfairfechan. | Tai | 17 | 0 | 2 | 11.8% |
| Cae America, Llanfairfechan | Tai | 73 | 0 | 0 | 0% |
| Red Gables, Ffordd Bangor, Penmaenmawr | Fflatiau | 10 | 1 | 1 | 20% |
| Hen Ysgol Genedlaethol, Penmaenmawr | Tai | 8 | 0 | 0 | 0% |
| Cambria Court a Dyffryn, Ffordd Conway, Penmaenmawr | Fflatiau | 16 | 7 | 0 | 44% |
| Tir i’r Gogledd o groesffordd Dwygyfylchi | Tai | 46 | 0 | 0 | 0% |

Ffynhonnell: Anheddau treth y Cyngor, cofrestr cyfraddau annomestig a chyflenwad tir ar gyfer tai, CBSC

12.4 Mae’r tabl isod yn dangos y lefelau ar gyfer datblygiadau yn ardal strategaeth y Creuddyn.

**Ffigur 9: tabl yn dangos nifer yr ail gartrefi a'r llety gwyliau mewn datblygiadau newydd yn ardal strategaeth y Creuddyn y CDLIN.**

| Safle | Math o annedd | Cyfanswm anheddau | Nifer yr ail gartrefi | Nifer y llety gwyliau | Cyfanswm % |
|---|---|---|---|---|---|
| Oakwood, ger Parc Sychnant, Conwy | Tai / Fflatiau cymysg | 83 | 2 | 0 | 2% |
| Yr Hen Three Gables, Ffordd Bwlch Sychnant, Conwy | Tai | 30 | 1 | 0 | 3% |
| Narrow Lane, Cyffordd Llandudno (pob cam) | Tai | 157 | 2 | 0 | 1% |
| Cornel Pentywyn Road a Marl Lane, Deganwy | Tai | 110 | 0 | 0 | 0% |
| Llys Marl, ger y goedwig, Cyffordd Llandudno | Tai | 52 | 0 | 0 | 0% |
| Deganwy Castle Hotel, Station Road, Deganwy | Tai / Fflatiau cymysg | 33 | 10 | 1 | 33% |
| Canolfan Ieuenctid Llandudno, Trinity Avenue, Llandudno | Fflatiau | 18 | 3 | 0 | 17% |
| Gwesty West Shore, West Parade, Llandudno | Fflatiau | 9 | 1 | 0 | 11% |
| Woodstock, Ffordd Llanrwst, Glan Conwy | Tai | 8 | 3 | 0 | 38% |

Ffynhonnell: Anheddau treth y Cyngor, cofrestr cyfraddau annomestig a chyflenwad tir ar gyfer tai, CBSC

12.5 Mae'r tabl isod yn dangos y lefelau ar gyfer datblygiadau yn ardal strategaeth Ganolog.

**Ffigur 10: tabl yn dangos nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau mewn datblygiadau newydd yn ardal strategaeth Ganolog y CDLIN.**

| Safle | Math o annedd | Cyfanswm anheddau | Nifer yr ail gartrefi | Nifer y llety gwyliau | Cyfanswm % |
|---|---|---|---|---|---|
| Odstone, 179 Marine Drive, Llandrillo-yn-Rhos | Fflatiau | 12 | 0 | 0 | 0% |
| Sunnydowns Hotel, 66 Ffordd yr Abaty, Llandrillo-yn-Rhos | Fflatiau | 9 | 0 | 0 | 0% |
| 20 College Avenue, Llandrillo-yn-Rhos | Fflatiau | 17 | 0 | 0 | 0% |
| Tir rhwng 17 a 19 Everard Road, Llandrillo-yn-Rhos | Fflatiau | 7 | 0 | 0 | 0% |
| Aberhod Old Hall, Promenâd Cayley, Llandrillo-yn-Rhos | Tai | 6 | 1 | 0 | 17% |
| Cartref Nyrsio Highcroft, 14 Whitehall Road, Llandrillo-yn-Rhos, | Fflatiau | 9 | 0 | 0 | 0% |
| The Rothesay Hotel, Promenâd y Gorllewin, Bae Colwyn | Fflatiau | 40 | 8 | 3 | 28% |
| 65 Victoria Park, Bae Colwyn | Fflatiau | 22 | 1 | 1 | 9% |
| 53 - 55 Oak Drive, Bae Colwyn | Fflatiau | 19 | 0 | 0 | 0% |
| Tir yn Oak Drive, Bae Colwyn | Fflatiau | 13 | 0 | 1 | 8% |
| 35 Pwllycrochan Avenue, Bae Colwyn | Fflatiau | 12 | 3 | 0 | 25% |
| 25 - 27 Llewelyn Road, Bae Colwyn | Fflatiau | 6 | 0 | 0 | 0% |
| Plas y Coed, Nant Eirias, Bae Colwyn | Tai / Fflatiau cymysg | 19 | 0 | 0 | 0% |
| Tir oddi ar Fferm Glyn, oddi ar Glyn Avenue, Bae Colwyn | Tai | 39 | 0 | 0 | 0% |
| Tir ger Ffordd Dolwen, Hen Golwyn | Tai | 98 | 2 | 0 | 2% |
| Tir ger Ffordd Dolwen (Dolgau), Hen Golwyn | Tai | 42 | 1 | 0 | 2% |
| Tir Hen Westy Seventy Deegrees, Ffordd Abergele, Hen Golwyn. | Tai / Fflatiau cymysg | 58 | 3 | 0 | 5% |

Ffynhonnell: Anheddau treth y Cyngor, cofrestr cyfraddau annomestig a chyflenwad tir ar gyfer tai, CBSC

12.6 Mae’r tabl isod yn dangos y lefelau ar gyfer datblygiadau yn ardal strategaeth y Dwyrain.

**Ffigur 11: tabl yn dangos nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau mewn datblygiadau newydd yn ardal strategaeth y Dwyrain y CDLIN.**

| Safle | Math o annedd | Cyfanswm anheddau | Nifer yr ail gartrefi | Nifer y llety gwyliau | Cyfanswm % |
|---|---|---|---|---|---|
| Parc Busnes Abergele | Tai | 156 | 0 | 0 | 0% |
| Garej Ceir Slaters, Bridge Street, Abergele | Tai / Fflatiau cymysg | 21 | 0 | 0 | 0% |
| Ffordd Llan San Siôr, Abergele | Tai | 100 | 0 | 0 | 0% |
| Llanfair Road (Wrth Gefn), Abergele | Tai | 100 | 0 | 0 | 0% |

Ffynhonnell: Anheddau treth y Cyngor, cofrestr cyfraddau annomestig a chyflenwad tir ar gyfer tai, CBSC

12.7 Mae’r tablau uchod yn dangos bod lefelau cymysg ar draws pob datblygiad, gyda rhai â niferoedd uchel o ail gartrefi a / neu lety gwyliau, yn enwedig rhai gyda blociau o fflatiau. Mae galw sylweddol am eiddo llai fel y nodwyd yn BP9 Asesiad o’r Farchnad Dai Leol. Mae cyflwyno amod C3 yn unig i’r mathau hyn o ddatblygiad i atal eu defnydd fel ail gartrefi neu lety gwyliau yn cael ei ystyried yn fuddiol ac wedi’i gyfiawnhau.

## 13. Ymagwedd ar gyfer aneddiadau a rennir

13.1 Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am gynllunio rhannau o Fwrdeistref Sirol Conwy ac wedi gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer holl ardal eu hawdurdod cynllunio. Mae ffin y Parc yn croesi drwy rai aneddiadau ym Mwrdeistref Sirol Conwy, sy’n golygu y bydd polisïau cynllunio gwahanol yn effeithio arnynt. Mae angen ymagwedd gyson yn yr ardaloedd hyn, cyn belled ag y bo’n ymarferol.

13.2 Mae’r Parc wedi gosod trothwy o 15% ar gyfer llety gwyliau ac ail gartrefi. Pe byddai gan gymuned lefelau’n uwch na’r canran, byddai caniatâd cynllunio’n cael ei wrthod yn unol â’u Canllawiau Cynllunio Atodol. Mae ffigur 6 a 7

uchod yn dangos ar hyn o bryd, dim ond un cymuned a rennir (Bro Garmon), sydd dros y trothwy o 15%. Mae'r ardal yn cynnwys aneddiadau yn Nebo ('a rennir' gyda'r Parc) a Melin y Coed.

13.3 Byddwn yn monitro'r cymunedau a rennir a'r rhai cyfagos yn ofalus i sicrhau bod unrhyw effeithiau o ddadleoli neu gynyddu'r niferoedd yn cael eu hystyried a bod Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei gyflwyno os credir bod cyfiawnhad dros hynny.

## 14. Casgliad ac argymhellion polisi

14.1 Mae'r data uchod yn tynnu sylw at y ffaith bod crynodiadau o ail gartrefi a llety gwyliau mewn rhai rhannau o ardal y CDLIN. Felly gallai fod yn fuddiol cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r defnyddiau hyn mewn rhai ardaloedd. Credir ei bod yn ofynnol cynnwys polisi yn y CDLIN i reoli lefelau'r ail gartrefi a llety gwyliau a'u heffaith bosibl ar gymunedau. Mae ymchwil a data pellach yn ofynnol i nodi ardaloedd penodol, y gellir eu holrhain ar wahân i broses y CDLIN. Argymhellir bod y polisi'n cynnwys trothwy o 15% i adlewyrchu'r ymchwil a nodwyd uchod a darparu cysondeb gyda Chyfarwyddiadau Erthygl 4 eraill ac ymagweddau polisi ar draws y rhanbarth.

14.2 Credir bod modd cyfiawnhau amod C3 yn unig i fflatiau newydd a datblygiadau rhandai ar draws ardal y CDLIN. Mae'r dystiolaeth uchod yn dangos er bod y lefelau'n amrywio mewn datblygiadau yn y gorffennol, mae gan rai grynodiadau uchel iawn o ran y defnydd hwn. Felly, ystyrir bod y dystiolaeth hon a'r materion cyflenwadau tai eraill yn ardal y CDLIN (a amlygwyd uchod ac yn BP9 Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a BP69 Tai Gwledig), yn darparu digon o gyfiawnhad i roi amod ar fflatiau newydd ar gyfer defnydd C3 yn unig. Ni chredir bod digon o dystiolaeth er mwyn cyfiawnhau'r mathau eraill o ddatblygiad ac felly argymhellir na roddir amod ar y rhain.

14.3 Mae'r dystiolaeth a nodwyd uchod yn nodi na fyddai cyfiawnhad i ddyrannu defnydd preswyl C3 yn unig yn y CDLIN.

## Atodiad 1: Ail gartrefi a llety gwyliau: Effaith ar iechyd cyhoeddus

# Cefndir

Mae'r nodyn briffio hwn yn amlinellu effaith ail gartrefi a llety gwyliau ar iechyd cyhoeddus ac mae wedi'i gynhyrchu gan dîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac yn seiliedig ar chwiliad tystiolaeth [3] a gynhaliwyd gan Wasanaeth Llyfrgelloedd BIPBC.

Mae effaith ail gartrefi'n gymhleth ac amrywiol. Dengys tystiolaeth ac ymchwil bod yr effaith ar gyfer preswylwyr parhaol o safbwynt gwerth tai, argaeledd tai a chysylltiadau â'r economi. Mae effaith ar fynediad at ofal iechyd sylfaenol ac eilaidd mewn ardaloedd gydag ail gartrefi a llety gwyliau. Ni fydd y rhain yn cael eu harchwilio'n fanwl yn y nodyn briffio hwn gan eu bod yn cael eu hymdrin gan yr awdurdod lleol a chydweithwyr y bwrdd iechyd, gyda'r nodyn briffio hwn yn canolbwyntio ar yr effaith ar iechyd cyhoeddus.

# Tai fel penderfynydd allweddol iechyd

Mae rôl tai fel penderfynydd cymdeithasol iechyd yn sefydledig ac mae tai yn gymhelliant allweddol ar gyfer iechyd cyhoeddus. Mae tystiolaeth bresennol yn dangos sut mae iechyd yn cael ei ddifrodi gan ddigartrefedd a thrwy fyw mewn tai o ansawdd gwael. Ond, mae'r llwybrau o dai i iechyd a lles yn ehangach ac yn fwy cymhleth nag effeithiau negyddol problemau tai. Nid lloches ffisegol yn unig yw tai fel 'cartref', ond mae'n sylfaen ar gyfer lles cymdeithasol, seicolegol a diwylliannol. [4]

---

[3] Evidence search: Public health and wider determinants challenges to the population in an area with high number of second homes and holiday lets. Nia Morris. (21 Chwefror 2023). Wrecsam, y DU: Llyfrgelloedd BIPBC.

[4] Housing as a social determinant of health: evidence from the Housing through Social Enterprise study

## Effaith ar iechyd cyhoeddus

Bydd gan ardaloedd gydag ail gartrefi a llety gwyliau boblogaeth nad yw'n barhaol, ac o safbwynt llety gwyliau, poblogaeth dymhorol.  Gall hyn arwain at ddiffyg cydlyniant cymunedol o fewn ardal a chynnig bwyd a system gludiant sy'n canolbwyntio ar boblogaeth dymhorol / nad yw'n barhaol (twristiaid) yn hytrach na phreswylwyr parhaol lleol.

## Cydlyniant Cymunedol

Mae diffyg cydlyniant cymunedol ac ymdeimlad o berthyn yn hynod berthnasol mewn ardaloedd gyda llety gwyliau lle bo'r boblogaeth dymhorol yn amrywio o un wythnos i'r llall.

Efallai y bydd gan ail gartrefi boblogaeth dymhorol sy'n fwy cyson ac felly efallai na fydd cymaint o effaith o safbwynt diffyg cydlyniant cymunedol.

Mae'r amgylchiadau hyn yn arwain at effaith ar ardaloedd lleol mewn cyfnodau penodol (dyddiau'r wythnos, misoedd y gaeaf) lle y bydd nifer y preswylwyr yn is ac mae dadansoddiad o effaith perchnogaeth ail gartrefi mewn ardaloedd gwledig, ledled y byd, yn aml yn alinio gyda damcaniaeth "colli cymuned", gan gysylltu ail gartrefi gydag amrywiaeth o ganlyniadau economaidd gymdeithasol negyddol. [5]

## Cynnig bwyd

Mae ardaloedd gyda llety gwyliau wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n boblogaidd gyda thwristiaid.   Bydd y cynnig bwyd yn yr ardaloedd hyn yn cael eu targedu i ddiwallu anghenion twristiaid yn lle preswylwyr lleol.   O ganlyniad gall hyn arwain at ddwysedd uchel o leoliadau bwyd i fynd poeth a chynnig bwyd sy'n llawn braster, halen a siwgr yn bennaf.   Mae hyn o bryder penodol ar gyfer preswylwyr lleol parhaol lle bo'r bwyd ar gael drwy gydol y flwyddyn ac nid yn ystod y gwyliau'n unig.

## Opsiynau cludiant

Hefyd, mae opsiynau ac argaeledd cludiant mewn ardaloedd gyda nifer o ail gartrefi a llety gwyliau yn canolbwyntio ar dwristiaid yn hytrach na phreswylwyr lleol.   Efallai

---

[5] The Social Value of Second Homes in Rural Communities

y bydd llai o ddewisiadau cludiant cynaliadwy fel bws a thrên yn ystod cyfnodau tawel mewn ymateb i'r gostyngiad mewn galw.

Yn aml mae llwybrau teithio llesol a hamdden yn canolbwyntio ar dwristiaid yn hytrach na llwybrau cymudo ar gyfer preswylwyr lleol er mwyn iddynt gyrraedd eu gwaith a gwasanaethau ac amwynderau lleol.

## Effaith ar Iechyd

Gall cydlyniant cymunedol gwael arwain at arwahanrwydd cymdeithasol ac unigedd. Mae cysylltiadau cymdeithasol o ansawdd uchel yn allweddol ar gyfer iechyd a lles corfforol a meddyliol da. Mae'n hysbys bod arwahanrwydd cymdeithasol ac unigedd yn cael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd a disgwyliad oes, yn enwedig ymysg pobl hŷn.


Mae mynediad at fwyd nad yw'n iach a dewisiadau cludiant teithio llesol gwael ac anghynaladwy yn arwain at lefelau is o weithgarwch corfforol a phwysau'r corff uwch. Mae hyn yn cynyddu'r risg bod preswylwyr lleol yn profi lefelau uchel o ordewdra. Mae gordewdra yn gysylltiedig ag ystod o gyflyrau iechyd, iechyd meddwl a lles gwael a gall arwain at anweithgarwch economaidd oherwydd effaith rhai o'r cyflyrau iechyd cysylltiol.

## Paratowyd gan

Lydia Orford, Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus

Tîm Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## Atodiad 2: map yn dangos ardaloedd strategaeth ofodol y CDLIN




Ffynhonnell: SPPS, CBSC

## Atodiad 3: Siaradwyr Cymraeg fesul Cyngor Cymuned - Newid 1991-2021

| Enw'r Ardal | Nifer 2001 | % 2001 | Nifer 2011 | % 2011 | Nifer 2021 | % 2011 | Newid rhwng 2001-21 | Newid 2001-21 % | Pwyntiau canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | **575,640** | **20.5%** | **562,016** | 19.0% | **538,296** | 17.8% | -37,344 | -6.9% | -2.7% |
| **Bwrdeistref Sirol Conwy** | **31,042** | **29.2%** | **30,600** | 27.4% | **29,000** | 25.9% | -2,042 | -7.0% | -3.3% |
| Abergele | 2,008 | 20.6% | 2,014 | 19.6% | 2,105 | 19.2% | 97 | 4.6% | -1.4% |
| Betws-y-coed | 298 | 57.4% | 252 | 46.5% | 206 | 43.6% | -92 | -44.7% | -13.8% |
| Betws-yn-Rhos | 447 | 48.5% | 473 | 46.4% | 412 | 43.5% | -35 | -8.5% | -5.0% |
| Bro Garmon | 419 | 66.5% | 372 | 58.6% | 428 | 65.8% | 9 | 2.1% | -0.7% |
| Bro Machno | 369 | 61.1% | 340 | 57.0% | 322 | 55.2% | -47 | -14.6% | -5.9% |
| Caerhun | 556 | 47.6% | 563 | 44.6% | 525 | 42.1% | -31 | -5.9% | -5.5% |
| Capel Curig | 115 | 52.8% | 113 | 57.1% | 97 | 46.9% | -18 | -18.6% | -5.9% |
| Cerrigydrudion | 515 | 76.4% | 549 | 77.2% | 474 | 67.5% | -41 | -8.6% | -8.9% |
| Bae Colwyn | 1,836 | 19.4% | 1,897 | 17.9% | 1,933 | 19.2% | 97 | 5.0% | -0.2% |
| Conwy | 4,103 | 29.8% | 3,901 | 27.3% | 3,974 | 26.0% | -129 | -3.2% | -3.8% |
| Dolgarrog | 200 | 49.9% | 200 | 46.8% | 180 | 42.1% | -20 | -11.1% | -7.8% |
| Dolwyddelan | 232 | 55.4% | 238 | 51.9% | 225 | 50.8% | -7 | -3.1% | -4.6% |
| Eglwysbach | 439 | 48.9% | 448 | 49.0% | 438 | 49.0% | -1 | -0.2% | 0.1% |
| Henryd | 261 | 39.0% | 261 | 37.1% | 223 | 34.5% | -38 | -17.0% | -4.5% |
| Llanddoged a Maenan | 347 | 62.3% | 371 | 62.4% | 352 | 59.1% | 5 | 1.4% | -3.2% |
| Llanddulas a Rhyd-y-Foel | 352 | 23.1% | 308 | 20.5% | 308 | 19.6% | -44 | -14.3% | -3.5% |
| Llandudno | 4,205 | 21.5% | 4,079 | 20.3% | 3,522 | 18.3% | -683 | -19.4% | -3.2% |
| Llanfairfechan | 1,828 | 50.2% | 1,646 | 46.7% | 1,518 | 43.9% | -310 | -20.4% | -6.3% |
| Llanfairtalhaiarn | 421 | 43.9% | 465 | 44.5% | 378 | 39.8% | -43 | -11.4% | -4.1% |
| Llanfihangel Glyn Myfyr | 133 | 69.6% | 128 | 69.6% | 133 | 66.8% | 0 | 0.0% | -2.8% |
| Llangernyw | 639 | 66.5% | 672 | 64.4% | 646 | 59.6% | 7 | 1.1% | -6.9% |
| Llangwm | 356 | 71.2% | 284 | 61.5% | 269 | 58.2% | -87 | -32.3% | -13.0% |
| Llannefydd | 327 | 61.2% | 348 | 60.9% | 319 | 60.5% | -8 | -2.5% | -0.7% |

| Enw'r Ardal | Nifer 2001 | % 2001 | Nifer 2011 | % 2011 | Nifer 2021 | % 2011 | Newid rhwng 2001-21 | Newid 2001-21 % | Pwyntiau canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanrwst | 1,876 | 64.3% | 1,943 | 61.0% | 1,776 | 58.4% | -100 | -5.6% | -5.9% |
| Llansanffraid Glan Conwy | 790 | 35.5% | 765 | 35.8% | 664 | 32.1% | -126 | -19.0% | -3.4% |
| Llansannan | 834 | 67.3% | 831 | 64.0% | 727 | 59.7% | -107 | -14.7% | -7.6% |
| Llysfaen | 591 | 23.5% | 552 | 21.1% | 521 | 19.8% | -70 | -13.4% | -3.7% |
| Mochdre | 434 | 24.2% | 416 | 22.5% | 403 | 20.8% | -31 | -7.7% | -3.4% |
| Hen Golwyn | 1,775 | 24.0% | 1,719 | 21.9% | 1,647 | 20.7% | -128 | -7.8% | -3.3% |
| Penmaenmawr | 1,402 | 37.5% | 1,425 | 33.8% | 1,330 | 31.9% | -72 | -5.4% | -5.6% |
| Pentrefoelas | 256 | 77.3% | 241 | 69.9% | 248 | 72.9% | -8 | -3.2% | -4.4% |
| Llandrillo-yn-Rhos | 1,236 | 17.8% | 1,366 | 18.4% | 1,345 | 17.2% | 109 | 8.1% | -0.6% |
| Towyn a Bae Cinmel | 814 | 10.7% | 927 | 11.3% | 897 | 11.2% | 83 | 9.3% | 0.5% |
| Trefriw | 448 | 50.1% | 342 | 44.9% | 337 | 43.0% | -111 | -32.9% | -7.1% |
| Ysbyty Ifan | 180 | 83.3% | 151 | 79.1% | 121 | 69.1% | -59 | -48.8% | -14.2% |